YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

Tachwedd 29 2024

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,

**Shrec**

Roedd perfformiad Shrec yw wythnos diwethaf yn bleser pur i'w wylio. Roedd yn hyfryd gweld cynifer o ddisgyblion yn cymryd rhan ac yn perfformio sioe a osododd wen ar wynebau pawb. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r holl staff am eu gwaith caled, yn ogystal â llongyfarchiadau enfawr i'n disgyblion am eu perfformiadau rhagorol.



*Cast Shrec*

**Llwyddiant ysgubol yr 2il dim rygbi**

Mae'r 2il XV rygbi wedi cael tymor hynod lwyddiannus, gan orffen gyda buddugoliaeth 52-0 dros Goleg Gwent yn rownd derfynol eu cystadleuaeth. Maen nhw'n gorffen y tymor heb golli un gem – gwaith gwych!

**Ffair aeaf**

Fe wnaeth disgyblion Blwyddyn 7 a 8 mwynhau mas draw yn y Ffair Aeaf ddydd Llun a Mawrth.  Diwylliant cefn gwlad ar ei orau a braf oedd rhoi profiad uniongyrchol i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth ynglŷn ag amaethyddiaeth a sut y caiff bwyd ei gynhyrchu.




*Disgyblion yn mwynhau'r Sioe Aeaf*




*Aelodaeth y Fforwm Busnes*

**Fforwm Busnes**

Diolch i'n holl bartneriaid am fynychu a chyfrannu at gynllunio amrywiol weithgareddau ar hyd y flwyddyn a fydd yn cyfoethogi cyfleoedd dysgu ein disgyblion. (Cardiff Commitment, Willmott Dixon, Stable, Pepper Money, Companies House, Rio Architects, Kier Construction, Mott Macdonald, Kocho, Careers Wales, Cardiff Curriculum)

**Llwyddiant disgyblion – athletau!**

Llongyfarchiadau mawr i Elen Blackmore (bl.10) a Macsen Martin Hughes (bl.10) sydd wedi cael yr anrhydedd o gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth athletau yng Nglasgow. Mae hyn yn dyst i'w gwaith caled a'u talent arbennig. Da iawn chi!



*Elen a Macsen yn cystadlu dros Gymru*

**Blwyddyn 11 – dewis rhydd**

Yn y bythefnos cyn y Nadolig, byddwn yn gofyn i ddisgyblion Blwyddyn 11 i gwblhau ffurflen google yn datgan pa bynciau maen nhw yn dymuno eu astudio yn y chweched dosbarth.  Mi

fydd y wybodaeth yma yn helpu i ni ffurfio colofnau opsiwn bydd yn cael eu rhannu yn Mawrth 2025.

**Caffi Lles**
Mae'r Caffi Lles nesaf yn cyfle gwych i rieni/gwarcheidwad ddod i'r ysgol i drafod materion a allai effeithio ar les eu plant gyda staff yr ysgol yn ogystal ag arbenigwyr amrywiol. Bydd y caffi nesaf yn cael ei gynnal am 4yp ar ddydd Mawrth, y 14eg o Ragfyr, gyda thrafodaeth ar y testun o gefnogi plant drwy brofedigaeth a galar. Croeso i bawb.

**Noson wobrwyo**

Bydd ein Noson Wobrwyo TGAU a Safon uwch yn nghwmni'r awdur Llwyd Owen. Cyfle i fyfyrwyr ddod at ei gilydd i ddathlu eu llwyddiant yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Cynhelir y noson yn Neuadd yr Ysgol ar y 17eg o Ragfyr am 6yh. Dewch i ymuno a ni i ddathlu llwyddiant arbennig ein myfyrwyr!

**Cyngerdd Nadolig 4.30 & 6pm – tocynnau ar gael nawr**

Bydd Cyngerdd Nadolig yr ysgol yn ei gynnal ar ddydd Iau, y 19feg o Ragfyr, gyda dau berfformiad – un am 4.30yp ac un arall am 6yh yng Nghapel y Tabernacl, yr Ais. Mae tocynnau ar gael nawr drwy ParentPay. Dewch i fwynhau noson arbennig yn llawn cerddoriaeth a hwyl Nadoligaidd gyda'n disgyblion talentog!

**Noson ffilmiau Nadoligaidd Llysoedd – blwyddyn 7 ac 8**
Bydd Noson Ffilm Nadolig i flynyddoedd 7 ac 8 yn cael ei chynnal yn yr ysgol ar ddydd Mawrth a Mercher nesaf (3.15yp – 5.15yp), sef y 3ydd a 4ydd o Ragfyr. Dydd Mawrth ar gyfer aelodau Dyfrig a Teilo, a dydd Mercher ar gyfer aelodau Dewi ac Illtud. Bydd y noson yn cael ei threfnu gan ein chweched dosbarth, gyda byrbrydau a diodydd ar werth. Dewch i fwynhau ffilm Nadoligaidd!



*Manylion y noson Ffilm*

**Dyddiadau pwysig**
Rhagfyr 5 a 6 – Imiwneiddio ffliw
Rhagfyr 9 – 13 – ffug-brofion Bl.11, 12&13 (amserlenni ar 'google classroom')
Rhagfyr 12 – Noson rhieni bl.9 (3yp – 6yp)
Rhagfyr 14 – Taith Cor Meibion i ddigwyddiad F1
Rhagfyr 18 – Sioe Nadolig y Ganolfan (1.30yp)
Rhagfyr 19 – Cyngerdd Nadolig (4.30yp a 6yp)
Rhagfyr 20 – Diwrnod olaf tymor (ysgol yn cau am 1.30yp)

Yn gywir,

Dyfrig G Rees
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf